

## **Gweinidogion Cymru**

# **ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 2) 2022-23 (Y Setliad Dros dro – Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu)**

## **CYNNWYS**

### **ADRAN 1 – Pwrpas yr Adroddiad a'r Prif Gynigion**

**Pennod 1 Pwrpas yr Adroddiad**

**Pennod 2 Y Prif Gynigion**

### **ADRAN 2 – Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (PCCs)**

**Pennod 3 Cyfrifo swm y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer pob PCC**

**Pennod 4 Cyfrifo swm yr Ardrethi Annomestig ar gyfer pob PCC**

**Pennod 5 Cyfrifo'r Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer pob PCC**

### **ADRAN 3 – Atodiadau'r Adroddiad**

**Atodiad 1 Dangosyddion a gwerthoedd a ddefnyddiwyd wrth Gyfrifo  
Asesiadau o Wariant Safonol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu**

**Atodiad 2 Geirfa a Nodiadau Esboniadol**

**Atodiad 3 Sail statudol ar gyfer yr Adroddiad**

## **ADRAN 1: PWRPAS YR ADRODDIAD A'R PRIF GYNIGION**

### **Pennod 1: Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Llunnir yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (Deddf 1988). Mae'n nodi faint o grant cynnal refeniw (RSG) y mae Gweinidogion Cymru yn cynnig ei ddosbarthu i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu<sup>1</sup> (PCCs) yn 2022-23. Mae'r adroddiad hefyd yn esbonio sut y caiff ardrethi annomestig (NDR) eu dosbarthu i PCCs.

---

<sup>1</sup>Mae Adran 1 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (c. 13) yn cyflwyno comisiynwyr yr heddlu a throseddu i ddisodli awdurdodau heddlu yng Nghymru a Lloegr, ac eithrio Llundain. Daeth Adran 1 i rym ym mis Tachwedd 2012.

## **Pennod 2: Y Prif Gynigion**

### **Grant Cynnal Refeniw**

2.1 £112.335 miliwn yw swm yr RSG ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn 2022-23.

2.2 O dan y system ddsbarthu a bennir yn yr adroddiad hwn, cyfrifir y swm o RSG i'w dalu i PCC unigol ar sail ei Aseiad o Wariant Safonol (SSA), gan ystyried y swm o NDR y bydd pob PCC yn ei dderbyn, a chan dybio'r swm o dreth gyngor y bydd y PCC yn gallu ei godi. Yn Adran 2 yr adroddiad hwn, disgrifir y drefn ar gyfer y broses hon.

### **Swm y gellir ei ddsbarthu: ardrethi annomestig**

2.3 £1,135 miliwn yw'r swm o NDR sydd ar gael ar gyfer 2022-23 ac y gellir ei ddsbarthu i awdurdodau derbyn yng Nghymru (cyfeirir at hyn fel E ym Mhennod 4). Felly, £1.135 miliwn yw'r swm sydd ar gael ar gyfer PCCs. Disgrifir y sail ar gyfer ddsbarthu NDR i PCCs ym Mhennod 4.

## ADRAN 2: COMISIYNWYR YR HEDDLU A THROSEDDU

### **Pennod 3: Cyfrifo swm yr RSG ar gyfer pob Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (PCC) unigol**

- 3.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r sail a ddefnyddir er mwyn i Weinidogion Cymru ddosbarthu swm yr RSG i'w dalu i PCCs yn 2022-23. Dosberthir y grant fel y gallai pob PCC dderbyn yr un dreth gyngor yn fras ar gyfer anheddau sydd wedi'u rhestru yn yr un band prisio, pe bai gan bob PCC ofyniad cyllidebol ar lefel ei SSA, yn amodol ar amodau penodol a nodir yn y Nodiadau Esboniadol (Atodiad 2).
- 3.2 Nodir y dull a ddefnyddiwyd er mwyn cyfrifo SSAs ar gyfer PCCs ym Mhennod 5. Yn rhan o'r cyfrifiad, defnyddir gwybodaeth sy'n adlewyrchu nodweddion demograffig, ffisegol, economaidd a chymdeithasol pob ardal.
- 3.3 Er mwyn cyfrifo swm y grant a delir i bob PCC, bydd Gweinidogion Cymru i ddechrau'n cyfrifo'r SSA ar gyfer y PCC dan sylw. I'r diben hwn, tybir na wneir unrhyw ddefnydd o gronfeydd, nac unrhyw gyfraniad i gronfeydd ychwaith.

Cyfrifir hawliad pob PCC am RSG drwy gymhwysu'r fformiwla:

$$A - B - (C \times D)$$

Dyma arwyddocâd y llythrennau:

- A yw'r SSA ar gyfer y PCC, fel y'i cyfrifwyd yn unol a Phennod 5;
- B yw cyfran y PCC o'r swm y gellir ei ddosbarthu o'r cyfrif ardrethi annomestig, fel y'i cyfrifwyd yn unol â Phennod 4;
- C yw elfen y dreth safonol ar gyfer ardal yr heddlu, fel y nodir ym mharagraff 3.4;  
a
- D yw sylfaen y dreth i ddibenion yr RSG ar gyfer ardal yr heddlu, fel y nodir yn Nhabl 3.1.

### Elfennau'r dreth safonol ar gyfer cyfrifo hawliadau'r RSG

3.4 Bydd Gweinidogion Cymru yn dosbarthu'r RSG i PCCs fel bo modd pennu'r un dreth gyngor yn fras (yn ddarostyngedig i'r amodau a bennir yn Atodiad 2), a elwir yn Dreth Gyngor ar gyfer Gwariant Safonol, ar gyfer anheddau sydd wedi'u rhestru yn yr un band prisio ym mhob ardal. Yr "elfen dreth safonol" briodol ar gyfer ardaloedd yr heddlu yw £107.39.

### Sylfaen y dreth gyngor ar gyfer dosbarthu'r RSG.

3.5 Mae'n ofynnol i bob cyngor gyfrifo ei sylfaen ar gyfer y dreth gyngor yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 33(5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y rhain yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 (fel y'u diwygiwyd)<sup>2</sup>). I ddibenion dosbarthu'r RSG, cyfrifir sylfaen y dreth gyngor gan roi sylw i ffigurau sylfaen y dreth gyngor a ddarparodd cynghorau i Weinidogion Cymru ar Ffurflen CT1 ar 18 Tachwedd 2021, neu cyn hynny.

3.6 Nodir ffigurau sylfaen y dreth gyngor i ddibenion dosbarthu'r RSG yn Nhabl 3.1.

**Tabl 3.1: Sylfaen y dreth gyngor – nifer yr adeiladau cyfwerth â band D**

Heddlu	Adeiladau Cyfwerth â Band D
Dyfed Powys	235,002
Gwent	229,138
Gogledd Cymru	301,070
De Cymru	516,558
<b>Cyfanswm Cymru</b>	<b>1,281,769</b>

Sylwch:

Fersiynau wedi'u talgrynnu o'r ffigurau a ddefnyddiwyd mewn gwirionedd yw'r ffigurau a ddangosir yn y tabl uchod.

Sylwch: Rhoddir esboniad o adeiladau cyfwerth â Band D yn Atodiad 2 – Nodiadau Esboniadol.

Sylwch: Defnyddir sylfaen y dreth gyngor ar gyfer 2022-23 ar gyfer setliad dros dro 2022-23.

<sup>2</sup>Gweler Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) (Diwygio) 1999 (O.S. 1999/2935 (W. 27), Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004 (O.S. 2004/3094) (W. 268) ac Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/969) (W.238).

**Pennod 4: Cyfrifo swm yr ardrethi annomestig ar gyfer pob Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (PCC)**

4.1 Yn y bennod hon nodir y sail a ddefnyddir er mwyn i Weinidogion Cymru ddsbarthu'r gyfran briodol o'r swm y gellir ei ddsbarthu o'r cyfrif ardrethi annomestig ar gyfer 2022-23 ymhlith PCCs. Fe'i dosberthir ar sail pro rata i gyd-fynd â'r boblogaeth o oedolion ym mhob ardal heddlu, drwy ddefnyddio'r fformiwla isod:

$$(E \times 0.1\%) \times \frac{F}{G}$$

Dyma arwyddocâd y llythrennau:

- E yw'r swm y gellir ei ddsbarthu a nodir ym mharagraff 2.3 yr Adroddiad hwn;  
F yw'r boblogaeth breswyl sydd yn 18 oed a throsodd ar 30 Mehefin 2020 yn ardal yr heddlu, yn ôl amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol<sup>3</sup> ac a nodir yn Nhabl 4.1;  
G yw poblogaeth Cymru ar yr un sail â'r hyn a nodir yn F uchod.

**Tabl 4.1: Y boblogaeth breswyl 18 oed a throsodd ar 30 Mehefin 2020**

<b>Heddlu</b>	<b>Poblogaeth</b>
Dyfed Powys	425,401
Gwent	474,525
Gogledd Cymru	565,013
De Cymru	1,074,775
<b>Cyfanswm Cymru</b>	<b>2,539,714</b>

<sup>3</sup> Fel y'u cyhoeddwyd ar 25 Mehefin 2021

**Pennod 5: Cyfrifo'r SSA ar gyfer pob Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (PCC) unigol**

- 5.1 Yr Ysgrifennydd Cartref sydd yn penderfynu ynghylch prif elfennau'r fformiwla ar gyfer cyfrifo'r SSA ar gyfer pob PCC, yn rhan o fformiwla gyffredin ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am elfen cyllido cyfalaf y fformiwla.
- 5.2 Y prif ffactor a ddefnyddir yn sail wrth bennu SSAs yr heddlu yw'r rhagamcan o'r boblogaeth breswyl. Caiff addasiadau cost eu hymgorffori yn y fformiwla hon ar gyfer nodweddion economaidd-gymdeithasol, a nodweddion eraill ardaloedd yr heddlu, ac er mwyn gwahaniaethau rhwng cost darpariaeth mewn gwahanol ardaloedd.
- 5.3 Nodir y dangosyddion a ddefnyddir i bennu'r SSA ar gyfer pob PCC, a diffiniadau ohonynt, yn Adran 3, Atodiad 1. Yn dilyn penderfyniad yr Ysgrifennydd Cartref i barhau i weithredu cynllun dampio mewn modd sy'n sicrhau bod pob corff plismona lleol yn derbyn yr un newid canrannol yng nghyfanswm Prif Grant yr Heddlu, mae dyraniad cyfun 2021-22 wedi'i ostwng i gyfansymiau rheolaeth 2022-23.
- 5.4 Wrth bennu'r modd y caiff y cyfan neu unrhyw ran o gyfanswm y grantiau i ddibenion yr heddlu eu dyrannu ymhlith cyrff plismona lleol, caiff yr Ysgrifennydd Cartref, o dan adran 46(4) o Ddeddf yr Heddlu 1996, arfer doethineb wrth gymhwyso fformiwlâu fel hyn, neu reolau eraill, yn ôl yr hyn y mae'n ei ystyried yn briodol.



## **ADRAN 3 – ATODIADAU'R ADRODDIAD**

**Atodiad 1** Dangosyddion a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo SSAs PCCs

**Atodiad 2** Geirfa a Nodiadau Esboniadol

**Atodiad 3** Sail statudol ar gyfer yr Adroddiad

## **ATODIAD 1: DANGOSYDDION A GWERTHOEDD A DDEFNYDDIWDYD WRTH GYFRIFO SSAs PCCS**

Oni nodir yn wahanol, y data a ddefnyddir i greu dangosyddion er mwyn cyfrifo asesiadau o wariant safonol (SSAs) yw'r data a oedd ar gael i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol ('yr Ysgrifennydd Gwladol') ar 1 Hydref 2012 ar gyfer ardal pob awdurdod cyfansoddol a oedd yn berthnasol wrth gyfrifo elfennau SSA penodol.

I'r diben hwn, ac yn y diffiniad o ddwysedd poblogaeth isod, awdurdodau cyfansoddol yw'r cynghorau y mae eu hardaloedd wedi'u cynnwys o fewn ardal yr heddlu.

Mae'r data a ddefnyddiwyd i lunio'r dangosyddion wedi cael ei addasu, lle bo'n berthnasol, i ystyried yr addasiadau a wnaed i heddluoedd yng Nghymru o dan Orchymyn Ardaloedd Heddlu (Cymru) 1995 (O.S. 1995/2864).

### **CYFRIFO'R SSA**

Cyfanswm yr SSA yw swm yr SSAs cyfredol ac anghyfredol.

### **CYFRIFO'R SSA CYFREDOL**

Cyfrifir rhan helaeth o swm y grant a delir i bob Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn unol â'r brif fformiwla seiliedig ar anghenion a ddangosir isod.

Y prif ffactor a ddefnyddir wrth bennu'r brif fformiwla yw'r rhagamcan o'r boblogaeth breswyl. Caiff addasiadau cost eu hymgorffori yn y fformiwla hon ar gyfer nodweddion economaidd-gymdeithasol, a nodweddion eraill ardaloedd yr heddlu, ac ar gyfer gwahaniaethau rhwng cost darpariaeth mewn gwahanol ardaloedd.

Mae'r fformiwla wedi'i phennu'n gyffredinol yn ôl cyfanswm cyfres o 'symiau' wedi'u lluosu â 'dangosyddion'. Ceir disgrifiad llawn o bob dangosydd yn Adran (A) isod. Eitemau o wybodaeth sydd ar gael ar gyfer pob ardal yw dangosyddion, er enghraifft, dwysedd y boblogaeth.

Cymhwysir ffactor graddio wrth gyfrifo'r symiau o grant a ddyrennir i bob Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau drwy'r brif fformiwla. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod cyfanswm y symiau hynny'n gyfwerth â chyfanswm cyfun y grant sydd i'w ddyrannu drwy'r brif fformiwla.

Mae'r elfen heddlu ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau neilltuol yn cynnwys swm sylfaenol fesul preswlydd a ragamcennir, swm sylfaenol fesul unigolyn y rhagwelir y bydd yn bresennol yn yr ardal yn ystod cyfnod o 24 awr (h.y, preswylwyr plws cymudwyr), ar gyfer achlysuron arbennig, a chyllid atodol ar gyfer troseddau, digwyddiadau, ofn troseddau, teneurwydd y boblogaeth a chostau'r ardal:

### **Symiau sylfaenol**

Swm Sylfaenol yr Heddlu: 14.1412

Swm Sylfaenol Achlysuron Arbennig: 0.7356

## **Cyllid atodol**

### **Cyllid Atodol yr Heddlu a Throseddu 1:**

2.1917 **wedi'i luosi â'r** mewnlif net yn ystod y dydd fesul pen o'r boblogaeth breswyl;  
**plws**

0.2444 **wedi'i luosi â'r** cofnod o farrau wedi'u pwysoli fesul 100 hectar; **plws**

13.4246 **wedi'i luosi â'r** hawlwyd cymhorthdal incwm/lwfans ceisio swydd ar sail  
incwm/elfen gwarant credyd pensiwn; **plws**

28.2485 **wedi'i luosi â'r** aelwydydd un rhiant

### **Cyllid Atodol yr Heddlu a Throseddu 2:**

0.0262 **wedi'i luosi â** dwysedd y boblogaeth; **plws**

84.1901 **wedi'i luosi â** hawlwyd budd-dal cysylltiedig â diweithdra hirdymor

### **Cyllid Atodol yr Heddlu a Throseddu 3:**

0.0653 **wedi'i luosi â'r** cofnod o farrau wedi'u pwysoli fesul 100 hectar; **plws**

0.0071 **wedi'i luosi â** dwysedd y boblogaeth; **plws**

3.2761 **wedi'i luosi â** phreswylwyr mewn galwedigaethau arferol/lled-arferol neu nad  
ydynt erioed wedi gweithio/sydd yn ddi-waith ers cyfnod hir; **plws**

8.0731 **wedi'i luosi â'r** aelwydydd un rhiant; **plws**

0.6104 **wedi'i luosi â'r** mewnlif net yn ystod y dydd fesul pen o'r boblogaeth breswyl

### **Cyllid Atodol yr Heddlu a Throseddu 4:**

0.1430 **wedi'i luosi â'r** cofnod o farrau wedi'u pwysoli fesul 100 hectar; **plws**

6.2961 **wedi'i luosi â'r** aelwydydd un rhiant; **plws**

19.4672 **wedi'i luosi â'r** tai myfyrwyr; **plws**

0.8907 **wedi'i luosi â'r** boblogaeth dan bwysau

### **Cyllid Atodol yr Heddlu a Throseddu 5:**

0.2690 **wedi'i luosi â'r** cofnod o farrau wedi'u pwysoli fesul 100 hectar; **plws**

29.8811 **wedi'i luosi â'r** tai myfyrwyr; **plws**

117.5751 **wedi'i luosi â** dynion ifanc sydd yn hawlio budd-dal cysylltiedig â diweithdra

### **Cyllid Atodol yr Heddlu a Throseddu 6:**

4.7041 **wedi'i luosi â'r** mewnlif net yn ystod y dydd fesul pen o'r boblogaeth breswyl;  
**llai**

0.4326 **wedi'i luosi â'r** cofnod o deneurwydd y boblogaeth; **plws**

1.1052 **wedi'i luosi â'r** cofnod o aelwydydd orlawn

### **Cyllid Atodol yr Heddlu a Throseddu 7:**

3.5191 **wedi'i luosi â'r** mewnlif net yn ystod y dydd fesul pen o'r boblogaeth breswyl;  
**plws**

22.1112 **wedi'i luosi â'r** tai myfyrwyr; **llai**

2.6187 **wedi'i luosi â** chyflawnwyr cyfoethog

**Cyllid Atodol Digwyddiadau'r Heddlu:**

35.2832 **wedi'i luosi â'r** hawlwr cymhorthdal incwm/lwfans ceisio swydd seiliedig ar incwm/elfen gwarant credyd pensiwn; **plws**

9.4106 **wedi'i luosi â'r** preswylwyr mewn llety teras

**Cyllid Atodol Ofn Troseddau yr Heddlu:**

0.2982 **wedi'i luosi â'r** cofnod o farrau wedi'u pwysoli fesul 100 hectar; **plws**

2.9150 **wedi'i luosi â'r** boblogaeth dan bwysau

**Cyllid Atodol Traffig yr Heddlu:**

1.1149 **wedi'i luosi â** theneurwydd y boblogaeth

**Cyllid Atodol Teneurwydd Poblogaeth yr Heddlu:**

0.8098 **wedi'i luosi â** theneurwydd y boblogaeth

Rhoddir y Fformiwla Ddyrannu Lawn ar gyfer yr Heddlu isod. Defnyddir y fformiwla hon i gyfrifo swm Prif Grant yr Heddlu ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu neilltuol:

**Fformiwla Ddyrannu ar gyfer yr Heddlu i'w gweithredu gan yr Ysgrifennydd Cartref**

a) Rhagamcan o'r boblogaeth yn 2013 **wedi'i luosi â** chanlyniad:

Swm sylfaenol yr heddlu; **plws**

Cyllid atodol yr heddlu a throseddu 1; **plws**

Cyllid atodol yr heddlu a throseddu 2; **plws**

Cyllid atodol yr heddlu a throseddu 3; **plws**

Cyllid atodol yr heddlu a throseddu 4; **plws**

Cyllid atodol yr heddlu a throseddu 5; **plws**

Cyllid atodol yr heddlu a throseddu 6; **plws**

Cyllid atodol yr heddlu a throseddu 7; **plws**

Cyllid atodol digwyddiadau'r heddlu; **plws**

Cyllid atodol ofn troseddau yr heddlu; **plws**

Cyllid atodol traffig yr heddlu; **plws**

Cyllid atodol teneurwydd poblogaeth yr heddlu.

b) Rhagamcan o'r boblogaeth yn ystod y dydd yn 2013 **wedi'i luosi â** swm sylfaenol achlysuron arbennig;

c) Caiff canlyniadau (a) a (b) eu **hadio** at ei gilydd, **yna lluosir y** canlyniad ag addasiad cost ardal ar gyfer yr heddlu;

ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 2) 2022-23  
(Y Setliad Dros dro – Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu)

- d) Caiff canlyniad (c) wedyn **ei luosi â** chyfradd grant yr heddlu;
- e) Caiff canlyniad (d) wedyn **ei luosi â'r** ffactor graddio 1.000009572949550 a roddir yn Atodiad C o'r Police Grant Report (England and Wales) 2021-22.
- f) Caiff canlyniad (e) **ei luosi â'r** canlyniad, sef £4,540,433,501 a'i rannu â'r swm ar gyfer yr holl Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng nghanlyniad (e).

Ceir esboniad llawnach o Fformiwla Dyrannu'r Heddlu yn ' Plain English Guide to the Police Allocation Formula' ar wefan y Swyddfa Gartref.

**(A) Dangosyddion a data a ddefnyddiwyd i gyfrifo elfennau cyfredol SSAs ar gyfer PCCs.**

**RHAGAMCAN O'R BOBLOGAETH YN 2013**

Y rhagamcan o gyfanswm y boblogaeth breswyl yn 2013, yn unol ag amcangyfrif Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ar 27 Mai 2010.

**MEWNLIF NET YN YSTOD Y DYDD**

Nifer yr unigolion sydd yn gweithio yn yr ardal, ond nad ydynt yn byw yno *llai* nifer y bobl sydd yn byw yn yr ardal ond sy'n gweithio y tu allan iddi, yn unol ag amcangyfrif yr Ysgrifennydd Gwladol o ddefnyddio gwybodaeth o Gyfrifiad 2001.

**MEWNLIF NET YN YSTOD Y DYDD FESUL PEN O'R BOBLOGAETH BRESWYL**

Y MEWNLIF NET YN YSTOD Y DYDD (fel y'i diffinnir uchod) *wedi'i rannu* â chyfanswm y boblogaeth sydd yn preswyl yn ardal yr heddlu, *wedi'i gyfrifo* drwy ddefnyddio gwybodaeth o Gyfrifiad 2001.

**COFNOD O FARRAU WEDI'U PWYSOLI FESUL 100 HECTAR**

Logarithm naturiol y canlynol :

Nifer yr unedau sydd yn farrau (*a ddiffinnir fel Dosbarthiad Diwydiannol Safonol 2007 56.30 – gweithgareddau gweini diodydd*), a fesurir ar lefel Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, yn unol ag amcangyfrif yr Ysgrifennydd Gwladol, ar sail gwybodaeth a ddarparwyd i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol o Gofrestr Busnes Rhyng-adrannol mis Mawrth; *wedi'i rannu* â nifer yr hectarau yn y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, gan ddefnyddio gwybodaeth o Gyfrifiad 2001 *sydd wedi'i rhannu* â 100; caiff y canlyniad wedyn ei *luosi* â nifer yr unedau sydd yn farrau ar lefel y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol; caiff yr uchod wedyn *ei rannu* yn ôl nifer y barrau o fewn ardal yr heddlu ac yna ei *symio* i ardal lefel yr heddlu.

**CYMHORTHDAL INCWM/LWFANS CEISIO SWYDD AR SAIL INCWM/ELFEN  
GWARANT CREDYD PENSIWN**

Nifer cyfartalog yr hawlwr Cymhorthdal Incwm/Lwfans Ceisio Swydd ar Sail Incwm/Elfen Gwarant Credyd Pensiwn, dros gyfnod rhwng:

- a) mis Mai 2009 a mis Chwefror 2012, gan ddefnyddio deuddeg o sganiau chwarterol o hawlwr Cymhorthdal Incwm/Elfen Gwarant Credyd Pensiwn ar gyfer y cyfnod hwn, ac
- b) Awst 2009 ac Awst 2011, gan ddefnyddio sganiau a wnaed ar ddiwedd mis Awst o bob blwyddyn ar gyfer hawlwr y Lwfans Ceisio Swydd ar Sail Incwm.

Fel yr amcangyfrifwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, *wedi'i rannu* â'r boblogaeth breswyl ar 30 Mehefin 2011, fel yr amcangyfrifwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

**AELWYDYDD UN RHIANT**

Cyfran yr aelwydydd sydd yn cynnwys rhiant unigol a phlant dibynnol, *wedi'i chyfrifo* drwy ddefnyddio gwybodaeth o Gyfrifiad 2001.

### **DWYSEDD Y BOBLOGAETH**

Y boblogaeth breswyl ar 30 Mehefin 2011, fel yr amcangyfrifwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol; *wedi'i rannu ag* arwynebedd ardal yr heddlu mewn hectarau, drwy ddefnyddio gwybodaeth o Gyfrifiad 2001.

### **HAWLWYR BUDD-DAL CYSYLLTIEDIG Â DIWEITHDRA HIRDYMR**

Nifer yr hawlwyrr budd-dal cysylltiedig â diweithdra, sef y Lwfans Ceisio Swydd a'r credydau Yswiriant Gwladol ar hyn o bryd, sydd wedi bod yn ddi-waith ers mwy na blwyddyn, ar gyfartaledd dros y cyfnod rhwng mis Mai 2009 a mis Ebrill 2012, wedi'i gyfrifo drwy ddefnyddio gwybodaeth fisol a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol drwy NOMIS, *wedi'i rannu â* chyfanswm y dynion 18-64 oed sy'n preswyl yn yr ardal, a chyfanswm y menywod 18-59 sy'n preswyl yn yr ardal ar 30 Mehefin 2011, fel yr amcangyfrifwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

### **PRESWYLWYR SYDD MEWN GALWEDIGAETHAU ARFEROL/LLED-ARFEROL NEU NAD YDYNT ERIOED WEDI GWEITHIO/SY'N DDI-WAITH ERS CYFNOD HIR**

Cyfran y preswylwyr mewn galwedigaethau arferol/lled-arferol neu nad ydynt erioed wedi gweithio neu sydd yn ddi-waith ers cyfnod hir (Ystadegau Gwladol – Dosbarthau Economaidd-gymdeithasol (NS-SEC) 6, 7 ac 8), wedi'i chyfrifo drwy ddefnyddio gwybodaeth o Gyfrifiad 2001.

### **TAI MYFYRWYR**

Cyfran yr aelwydydd lle mae pawb sydd yn byw ynddynt yn fyfyrwyr wedi'i chyfrifo drwy ddefnyddio Cyfrifiad 2001.

### **POBLOGAETH DAN BWYSAU**

Cyfran y preswylwyr mewn aelwydydd sydd yn byw mewn ardaloedd a ddsbarthwyd yn y categori ACORN fel ardaloedd 'Dan Bwysau', fel y'i diffiniwyd yn nata ACORN a gynhyrchwyd gan CACI Limited, ar sail gwybodaeth o Gyfrifiad 2001 a data cyfredol am ffyrdd o fyw, ac a ryddhawyd yn 2012.

### **DYNION IFANC SYDD YN HAWLIO BUDD-DALIADAU'N GYSYLLTIEDIG Â DIWEITHDRA**

Nifer y dynion dan 25 oed ymhlith hawlwyrr budd-dal cysylltiedig â diweithdra, sef y Lwfans Ceisio Swydd a'r credydau Yswiriant Gwladol ar hyn o bryd, ar gyfartaledd dros y cyfnod rhwng mis Mai 2009 a mis Ebrill 2012, wedi'i gyfrifo drwy ddefnyddio gwybodaeth fisol a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol drwy NOMIS, *wedi'i rannu â* swm y dynion preswyl 18-64 oed a nifer y menywod 18-59 oed ar 30 Mehefin 2011, fel yr amcangyfrifwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

### **TENEURWYDD Y BOBLOGAETH**

Teneurwydd poblogaeth ym mhob ardal heddlu, wedi'i fesur ar lefel Ardal Gynnyrch. Swm:

- (i) 2 *wedi'i luosi â* phoblogaeth breswyl yr Ardaloedd Cynnyrch hynny o fewn ardal yr heddlu yng Nghyfrifiad 2001 lle ceir 0.5 neu lai o breswylwyr fesul hectar, *wedi'i rannu â* chyfanswm poblogaeth yr ardal, wedi'i gyfrifo drwy ddefnyddio gwybodaeth o Gyfrifiad 2001; a

- (ii) phoblogaeth breswyl yr Ardaloedd Cynnyrch hynny o fewn ardal yr heddlu yng Nghyfrifiad 2001 lle ceir mwy na 0.5 a hyd at ac yn cynnwys 4 o breswylwyr fesul hectar, *wedi'i rannu â* chyfanswm poblogaeth yr ardal, *wedi'i gyfrifo* drwy ddefnyddio gwybodaeth o Gyfrifiad 2001.

Cyflwynwyd Ardaloedd Cynnyrch gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel yr unedau lleiaf o ran cynnyrch ar gyfer Cyfrifiad 2001. Eu hisafswm o ran maint yng Nghymru a Lloegr yw 100 o breswylwyr a 40 o aelwydydd. Maent yn seiliedig ar godau post ar ddiwrnod y Cyfrifiad ac oddi mewn i derfynau wardiau (a phlwyfi) ystadegol 2003.

### **COFNOD O DENEURWYDD Y BOBLOGAETH**

Logarithm naturiol TENEURWYDD Y BOBLOGAETH (fel y'i diffinnir uchod)

### **COFNOD O AELWYDYDD GORLAWN**

Logarithm naturiol y canlynol:

Cyfran yr aelwydydd gorlawn a chanddynt gyfradd meddiannaeth o "-1 neu lai" , *wedi'i chyfrifo* drwy ddefnyddio gwybodaeth o Gyfrifiad 2001.

### **POBLOGAETH CYFLAWNWYR CEFNOG**

Cyfran y preswylwyr mewn aelwydydd sydd yn byw mewn ardaloedd a ddsbarthwyd yn y categori ACORN fel ardaloedd 'Cyflawnwyr Cefnog', fel y'i diffiniwyd yn nata ACORN a gynhyrchwyd gan CACI Limited, ar sail gwybodaeth o Gyfrifiad 2001 a data cyfredol am ffyrdd o fyw, ac a ryddhawyd yng nghanol 2012.

### **AELWYDYDD TERAS**

Cyfran yr aelwydydd sydd yn dai teras, gan gynnwys tai ar ben y teras, *wedi'i chyfrifo* drwy ddefnyddio gwybodaeth o Gyfrifiad 2001.

### **RHAGAMCAN O'R BOBLOGAETH YN YSTOD Y DYDD YN 2013**

RHAGAMCAN O'R BOBLOGAETH YN 2013 (fel y'i diffinnir uchod) *p/ws* MEWNLIF NET YN YSTOD Y DYDD (fel y'i diffinnir uchod).

### **CYFRADD GRANT YR HEDDLU**

Y gyfran o wariant refeniw yr heddlu yng Nghymru a Lloegr ar gyfer 2013-14, yn ôl amcangyfrif yr Ysgrifennydd Gwladol, a fodlonir yn uniongyrchol drwy gyfanswm grant yr heddlu a gyfrifwyd dan Atodiad A o Adroddiad Grant yr Heddlu (Cymru a Lloegr) 2013-14.

### **ADDASU COST YR ARDAL AR GYFER YR HEDDLU**

Ffactor a gyfrifwyd i adlewyrchu gwahaniaethau yn y gost o ddarparu gwasanaethau heddlu ar draws y wlad. Nodir y ffactor yn Atodiad D o Adroddiad Grant yr Heddlu (Cymru a Lloegr 2022-23). Mae'n seiliedig yn fras ar yr wybodaeth a gafwyd o'r ffynonellau canlynol: Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2009, 2010 a 2011 a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Ffurflen Dadansoddi Goddrychol 2005-06 a 2007-08; Ffurflenni Amcangyfrif Sylfaenol 1992-93; gwerthoedd ardrethu fesul metr sgwâr ar gyfer swyddfeydd yn ardaloedd gweinyddol Cymru a Lloegr o ddatganiad ystadegol Asiantaeth y Swyddfa Briso, Business Floorspace 2012; ardrethi annomestig gros a chynnydd a gostyngiadau yn yr incwm ardrethi, a ddarparwyd gan awdurdodau i'r Ysgrifennydd Gwladol ar y Ffurflen Cyfraniadau Ardrethi Annomestig



ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 2) 2022-23  
(Y Setliad Dros dro – Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu)

Cenedlaethol Dros Dro 2012-13; a chyfanswm y boblogaeth breswyl ar  
30 Mehefin 2011, fel yr amcangyfrifwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol;

**(B) Dangosyddion a data a ddefnyddiwyd i gyfrifo elfennau anghyfredol SSAs ar gyfer PCCs.**

Cydrannau cyllid dyledion yw ad-daliadau a llog (ar gyfer dyledion cyn ac ar ôl 31/03/1990) a gostyngiad mewn grantiau cyllido cyfalaf. Tybir mai 4% yw'r gyfradd ad-dalu a'r gyfradd llog a ddefnyddir yw'r gyfradd llog gyfun ar gyfer 2022-23, a gyfrifir fel 6.6%. Ceir disgrifiad manwl o'r dull cyfrifo ym mharagraffau (a) i (i) isod.

(a) Cyfrifir cydran yr asesiadau o wariant safonol mewn perthynas â chyllido cyfalaf gan dybio bod:

- (i) Lefel y terfyn uchaf ar gyfer credyd mewn perthynas â chronfa'r heddlu ar 31 Mawrth 2004, yn gysylltiedig â dyledion a ysgwyddwyd cyn 31 Mawrth 1990, yw'r ffigur a ddarparwyd i Weinidogion Cymru gan gyn-awdurdodau heddlu ar ffurflen COR5 ar gyfer 2004.
- (ii) Lefel y terfyn uchaf ar gyfer credyd mewn perthynas â chronfa'r heddlu ar 31 Mawrth 2004 yn gysylltiedig â dyledion a ysgwyddwyd ar ôl 31 Mawrth 1990 yw'r gwahaniaeth rhwng y terfyn credyd ar gyfer (i) uchod a'r ffigur ar gyfer terfyn uchaf cyfanswm y credyd tybiannol, fel yr adroddwyd ar ffurflen COR5 ar gyfer 2004.

Dyma lefelau tybiedig y terfyn uchaf ar gyfer credyd mewn perthynas ag (i) a (ii) uchod:

**Tabl 1: Terfyn uchaf credyd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (£ miloedd)**

<b>Heddlu</b>	<b>(i)</b>	<b>(ii)</b>
Dyfed Powys	2,346	2,669
Gwent	1,357	4,774
Gogledd Cymru	417	3,021
De Cymru	2,255	14,873
<b>Cyfanswm Cymru</b>	<b>6,375</b>	<b>25,337</b>

Y gydran cyllido dyledion yn SSA pob Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yw cyfanswm y symiau a ddisgrifir yn (h) ac (i) isod.

(b) Cyfrifir cydran yr SSAs mewn perthynas â chyllid cyfalaf ar gyfer dyledion a ysgwyddwyd ar neu cyn 31 Mawrth 1990 a briodolir i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu drwy dybio bod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn ad-dalu 4% o unrhyw derfyn uchaf credyd tybiannol ar 1 Ebrill 2004, mewn perthynas â'r symiau yn (a(i)).

(c) Cyfrifir cydran yr SSAs mewn perthynas â chyllid cyfalaf ar gyfer dyledion a ysgwyddwyd ar ôl 31 Mawrth 1990 ac a briodolir i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu drwy dybio bod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn ad-dalu 4% o unrhyw derfyn uchaf ar gyfer credyd tybiannol ar 1 Ebrill 2004, mewn perthynas â'r symiau yn (a(ii)) a bod y dyledion a ysgwyddwyd ar ôl 31 Mawrth 2004 yn hafal i'r ffigur benthyca â chymorth ar gyfer y flwyddyn berthnasol a oedd ar gael i'r Swyddfa Gartref a Gweinidogion Cymru wrth iddynt wneud gwaith cyfrifo.

ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 2) 2022-23  
(Y Setliad Dros dro – Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu)

(d) Tybir bod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn ad-dalu 4% ar sail balans sydd yn gostwng ar gyfer unrhyw ddyled benthycia ym mis Ebrill 2004, mewn perthynas â'r symiau yn (b).

(e) Cyfrifir taliadau llog ar ddyledion a ysgwyddwyd ar 31 Mawrth 1990 neu cyn hynny mewn perthynas â (b) fel canlyniad cymhwyso'r gyfradd llog gyfun i derfyn uchaf y credyd tybiannol cyfartalog ar gyfer 2022-23 yn unol â rhagdybiaethau a ddisgrifir yn (b) a (d) uchod.

(f) Tybir bod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn ad-dalu 4% ar sail balans sydd yn gostwng ar gyfer unrhyw ddyled benthyciad dybiannol sydd yn weddill ym mis Ebrill 2021, mewn perthynas â'r symiau yn (c).

(g) Cyfrifir taliadau llog ar fenthyciadau â chymorth mewn perthynas â (c) fel canlyniad cymhwyso'r gyfradd llog gyfun i'r terfyn credyd tybiannol cyfartalog ar gyfer 2022-23 yn unol â'r rhagdybiaethau a ddisgrifir yn (c) ac (f) uchod.

(h) Y gydran cyllido cyfalaf ar gyfer pob cyngor mewn perthynas â dyledion a ysgwyddwyd ar 31 Mawrth 1990 neu cyn hynny yw swm y canlynol:

yr ad-daliadau ar gyfer 2022-23 a ddisgrifir yn (d) uchod a'r taliadau llog a ddisgrifir yn (e). Caiff y cyfanswm hwn wedyn ei luosi â 49% yn sgil darparu grant cyllido cyfalaf ar gyfer y ddyled cyn 1990.

(i) Y gydran cyllido cyfalaf ar gyfer pob cyngor mewn perthynas â dyledion a ysgwyddwyd ar ôl 31 Mawrth 1990 yw swm y canlynol:

yr ad-daliadau ar gyfer 2022-23 a ddisgrifir yn (f) uchod a'r taliadau llog a ddisgrifir yn (g).

## ATODIAD 2: GEIRFA A NODIADAU ESBONIADOL

Mae'r eirfa hon yn cynnig esboniadau o rai o'r termau technegol allweddol a ddefnyddir yn yr adroddiad.

**Adeiladau cyfwerth â Band D** i ddibenion y dreth gyngor, mae pob eiddo wedi cael ei brisio yn ôl band. Mae'r bandiau hyn yn amrywio rhwng Band A a Band I, ac mae'r biliau cyngor ar gyfer pob band yn amrywio yn ôl cyfres o luosyddion. Mae'r lluosyddion hyn yn amrywio rhwng chwe rhan o naw am eiddo band A a dwy neu dair rhan o naw ar gyfer eiddo band I, a'r lluosydd ar gyfer eiddo Band D yw un. Nifer yr adeiladau cyfwerth â Band D mewn ardal heddlu yw cyfanswm yr anheddau domestig yn nhermau eu perthynas â Band D. Er enghraifft, mae un eiddo Band H yn gyfwerth â dau eiddo Band D, gan ei fod yn talu dwbl y dreth gyngor.

**Amodau sy'n effeithio ar gyfrifiad y dreth gyngor:** Dosberthir yr RSG er mwyn galluogi pob PCC i osod yr un dreth gyngor yn fras ar gyfer anheddau sydd wedi'u cynnwys yn yr un band prisio. Ar gyfer pob ardal gyngor neu heddlu, tybir bod sylfaen y dreth gyngor ar gyfer 2022-23 a ddefnyddiwyd i ddsbarthu'r RSG wedi'i gyfrifo'n unol â'r is-ddeddfwriaeth berthnasol (Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 (O.S. 1995/2561), fel y'u diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) (Diwygio) 1999 (OS 1999/2935), Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor a Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004 (OS 2004/3094) (W.268)) ac Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) (Diwygio) 2016 (O.S. 2016/969) (W. 238)). Yn ail, tybir y bydd cymhwyso adran 35 yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("eitemau arbennig i ddibenion adran 34") (fel y'i diwygiwyd) yn golygu bod yr anheddau sydd wedi'u rhestru o fewn yr un band prisio ar draws ardal heddlu gyfan yn talu yr un dreth gyngor.

**Ardrethi annomestig** yw'r dreth a delir gan fusnesau ar eiddo. Telir ardrethi annomestig i gronfa gyfun a weinyddir gan Lywodraeth Cymru i'w hailddosbarthu i awdurdodau unedol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

Mae **Awdurdodau Derby**n yn cynnwys Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Telir yr RSG i bob awdurdod sy'n derbyn.

**Y Dreth Gyngor ar gyfer Gwariant Safonol** yw lefel y dreth gyngor ar gyfer eiddo Band D a fyddai'n cael ei chodi ym mhob rhan o Gymru pe bai holl Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn gwario ar lefel eu SSA Defnyddir y ffigur hwn i gyfrifo sut y dylid rhannu'r swm o RSG sydd yn daladwy i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn eu plith.

**Elfen dreth safonol** yw cyfran y dreth gyngor ar gyfer gwariant safonol y gellir ei phriodoli i bob dosbarth o blith yr awdurdodau derbyn. Dyma ffigur cyffredin ar gyfer pob awdurdod o fewn dosbarth. Rhennir yr awdurdodau yng Nghymru i ddau ddsbarth, sef cynghorau a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

**SSAs** (Aseidiadau o Wariant Safonol) yw aseidiadau tybiannol o angen pob PCC i wario ar wasanaethau refeniw, ac eithrio grantiau penodol, i ddibenion dosbarthu'r RSG.

ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 2) 2022-23  
(Y Setliad Dros dro – Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu)

**Sylfaen y Dreth Gyngor** ar gyfer ardal yw nifer yr adeiladau cyfwerth â Band D, ar ôl addasu ar gyfer gostyngiadau ac eithriadau. Mae gostyngiadau ar gael i bobl sy'n byw ar eu pen eu hunain, ac i berchnogion cartrefi nad ydynt yn brif gartref i unrhyw un. Ni chodir y Dreth Gyngor ar gyfer rhai mathau o adeiladau, a elwir yn adeiladau wedi'u heithrio, fel adeiladau nad oes ond myfyrwyr yn byw ynddynt. Ceir disgrifiad o'r dull o gyfrifo sylfaen y dreth gyngor, a'r dull o'i ddefnyddio er mwyn cyfrifo'r RSG ym mharagraff 3.5 yn adran 2 o'r Adroddiad hwn.

### **ATODIAD 3: SAIL STATUDOL AR GYFER YR ADRODDIAD**

1. Lluniwyd yr Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol o dan adran 84G (Adroddiadau cyllid llywodraeth leol) o Deddf 1988, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (Deddf 2003). Bydd yr adroddiad yn cael effaith ar flwyddyn ariannol 2022-23, os yw Senedd yn penderfynu ei gymeradwyo.

#### **Swm yr RSG a'r ardrethi annomestig a ailddosberthir**

2. Yn sgil Adran 84F (Pennu grant) yn Neddf 1988, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru bennu swm yr RSG ar gyfer pob blwyddyn ariannol, a faint y maent yn cynnig ei dalu i awdurdodau sy'n derbyn<sup>4</sup>.

#### **Sail ar gyfer dosbarthu'r RSG**

3. Yn sgil Adran 40 a pharagraff 1 Atodlen 2 o Ddeddf 2003, cafodd adran 84G ei chynnwys yn Neddf 1988. Yn sgil Adran 84G, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru lunio adroddiad yn nodi eu penderfyniadau o dan adran 84F, a nodi ar ba sail y bydd yr RSG yn cael ei ddosbarthu ymhlith awdurdodau sy'n derbyn.

#### **Ardrethi annomestig a ailddosberthir**

4. Ym Mharagraff 9A o Atodlen 8 (Swm y gellir ei ddosbarthu) o Ddeddf 1998, mae'n ofynnol i Weinidogion nodi yn yr adroddiad y swm y gellir ei ddosbarthu o'r cyfrif ardrethi annomestig. O dan baragraff 11A (Dosbarthu: adroddiadau cyllid llywodraeth leol) o'r un Atodlen, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru nodi yn yr adroddiad y sail (y sail ddosbarthu) a ddefnyddir er mwyn dosbarthu'r swm y gellir ei ddosbarthu ymhlith yr awdurdodau derbyn.

---

<sup>4</sup> Diffinnir awdurdodau derbyn yn adran 76 o Ddeddf 1988 fel unrhyw awdurdod bilio neu awdurdod praeseptio mawr. Diffinnir awdurdodau praeseptio mawr yn adran 39 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ac maent yn cynnwys comisiynwyr yr heddlu a throseddu. Diwygiwyd Adran 39 yn sgil adran 26 yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.